# Cymorth Cynnar

Pen-y-bont ar Ogwr

## Gwybodaeth i Deuluoedd

Mae ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd angen ychydig o gymorth a chefnogaeth ychwanegol ambell waith er mwyn cael bywydau hapus, iach a llwyddiannus.

Gall y Tîm Cymorth Cynnar dynnu'r bobl iawn at ei gilydd i'ch helpu chi a'ch teulu.
Rydym ni'n gosod y teulu yng nghanol y gefnogaeth o'r dechrau i'r diwedd yn unrhyw beth y bydd y Gwasanaeth yn ei wneud.



## Beth ydy Cymorth Cynnar?

Mae'n golygu siarad am gryfderau yn ogystal â'r meysydd y gellir eu gwella.

Mae'n golygu cael y cymorth iawn i chi ar yr amser iawn.

Mae'n golygu dod â thîm o'r bobl iawn at ei gilydd fydd yn gallu cynorthwyo eich teulu.

Mae'n golygu gwrando arnoch chi a rhoi dewisiadau i chi.

**Beth fydd fy ngweithiwr Cymorth Cynnar yn ei wneud?**

- Unwaith y bydd wedi derbyn atgyfeiriad, bydd y gweithiwr yn trefnu i'ch cyfarfod chi i gwblhau asesiad teulu cyfan ac edrych ar y newidiadau yr hoffech chi eu gwneud i wella eich bywyd teuluol, ac ateb unrhyw gwestiynau fydd gennych.
- Byddwch yn cytuno ar gynllun gweithredu sy'n egluro sut y byddwch yn cyflawni newidiadau cadarnhaol a phwy fydd yn gyfrifol am bob gweithred. Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu â sefydliadau eraill sydd wedi cynorthwyo eich teulu chi yn y gorffennol neu a allai helpu yn y dyfodol.
- Efallai y bydd y gweithiwr yn cyfeirio at asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill os bydd angen cymorth ychwanegol i sicrhau eich bod yn cael y cymorth iawn.

## Sut gallwn ni helpu?

Rhai o'r ffyrdd y gallwn ni eich helpu yw:

Magu plant
Cymorth i ofalwyr ifanc
Rheoli ymddygiad heriol (0-25mlwydd oed)
Cymorth yn yr ysgol
Problemau presenoldeb yn yr ysgol
Trais domestig
Budd-daliadau / rheoli dyledion
Iechyd emosiynol
Iechyd meddwl (pryder a straen)
Anableddau
Gwaith

Os ydych chi'n meddwl y gall y tîm Cymorth Cynnar eich helpu chi, gofynnwch i unrhyw weithiwr proffesiynol yr ydych yn gweithio gydag ef yn awr eich cyfeirio am Gymorth Cynnar. Gellwch hefyd ofyn i ysgol eich plentyn wneud hyn i chi neu, fel arall, cysylltwch â thîm sgrinio Cymorth Cynnar i'ch cyfeirio eich hun ar 01656 815420.

Fy Ngweithiwr ydy: